# Safonau'r Gymraeg - Cynllun Gweithredu

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi fframwaith cyfreithiol a oedd yn gosod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg). Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Ofcom - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Cafodd y ddogfen hon ei chreu er mwyn cydymffurfio â'r safonau canlynol y mae gan Ofcom ddyletswydd i gydymffurfio â nhw - 157, 159, 163 a 165.

Mae'r ddogfen hon yn datgan sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisïau a'r safonau gweithredol a roddwyd i Ofcom gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn datgan ein trefniadau ar gyfer goruchwylio, hyrwyddo a hwyluso'r safonau hyn. Mae copi o'r safonau a roddwyd i Ofcom ac y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gael ar Ofcom.in/Cymraeg

Isod rydyn ni'n nodi mesurau ychwanegol sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ofynion newydd a fydd yn deillio o'r safonau Cymraeg. Diweddarwyd y ddogfen hon ym mis Mawrth 2022.

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

| SUT RYDYM YN CYDYMFFURFIO | HYRWYDDO A HWYLUSO | GORUCHWYLIO |
|---|---|---|
| **COFNODI DEWIS IAITH**<br>Mae tîm Ofcom Cymru yn cofnodi dewis iaith rhanddeiliaid allanol ar gronfa ddata feistr sy'n cael ei diweddaru yn ôl yr angen.<br>**GOHEBIAETH**<br>Mae negeseuon e-bost allanol staff Ofcom Cymru yn cynnwys y testun canlynol yn llofnod awtomatig unigolion: -<br>'Mae croeso i chi gysylltu â mi yn Gymraeg. Ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn achosi oedi.'<br>Nodwyd ar ffurflenni ymateb Cymraeg i brif ymgynghoriadau Ofcom bod croeso i ymatebwyr gyflwyno'u hymateb yn Gymraeg ac ni fydd hynny'n achosi oedi.<br>Mae papur pennawd corfforaethol Ofcom yn cynnwys fersiwn Cymraeg y logo gyda'r llinell "sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb" a throedyn dwyieithog.<br><br>**RHIFAU/GALWADAU FFÔN**<br>Mae pob galwad ffôn i swyddfa Ofcom Cymru yn cael ei hateb gyda chyfarchiad dwyieithog. Mae'r rheini sy'n ffonio'r Llinell Gymorth Gymraeg yn cael eu cyfarch yn Gymraeg yn unig. Mae neges ddwyieithog yn cael ei chwarae ar brif rif Ofcom Cymru y tu allan i oriau swyddfa. Neges Gymraeg yn unig sydd ar beiriant ateb y Llinell Gymraeg. Gall bobl ddethol eu dewis iaith Cymraeg neu Saesneg pan yn galw prif linell gymorth Ofcom.<br><br>Mae rhif y Llinell Gymorth Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ar ein gwefan ochr yn ochr â rhif canolfan alwadau'r DU yn y Gymraeg a'r Saesneg ac ar ein cyfryngau cymdeithasol. | Er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithredu'r safonau, mae'r swyddogion Cymraeg wedi cydlynu cynllun cyfathrebu sy'n cynnwys y canlynol:<br>• Diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau Cymraeg Ofcom i Bwyllgor Cynghori Cymru, Pwyllgor y Gwledydd, y Bwrdd Rheoli Polisi a Bwrdd Ofcom.<br>• Yr Adran Adnoddau Dynol yn cynnwys cyflwyniad ar y Gymraeg a'r Safonau yn sesiwn ymsefydlu pob aelod staff newydd.<br>• Safonau'r Gymraeg yn rhan o sesiwn chwarterol 'Cyflwyniad i'r Gwledydd' i newydd ddyfodiad staff Ofcom<br>• Sesiynau un-i-un gydag aelodau newydd timau Cyfathrebiadau a Digidol a Chreadigol gyda'r swyddogion Cymraeg.<br>• Cynhyrchu fideo hyrwyddo mewnol sydd ar y Fewnrwyd fel rhan o'r 'Cornel Cymraeg' sy'n dangos hanes y Gymraeg, beth mae'r safonau'n ei olygu i'r sefydliad, sut maent yn cael eu rhoi ar waith a beth i'w wneud nesaf.<br>• Fideo canllaw ar drefnu cyfieithiadau Cymraeg.<br>• Modiwl dysgu mewnol ar y Gymraeg ar lwyfan dysgu swyddogol Ofcom.<br>• Sefydlwyd Eiriolwyr y Gymraeg ar draws Ofcom ym Mawrth 2021. Eu gwaith nhw yw i sicrhau bod eu timau yn ystyried anghenion y Gymraeg a rhoi gwybod i Swyddogion y Gymraeg am brosiectau sydd angen eu mewnbwn. | **SWYDDOGION Y GYMRAEG**<br>Mae'r Uwch Gynghorydd y Gymraeg yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiad Ofcom â'r Safonau Cymraeg. Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg yn cefnogi'r Uwch Gynghorydd ac yn rheoli'r holl waith cyfieithu a chyhoeddi'r holl ddogfennau Cymraeg. Y ddau swyddog yma yw'r pwynt cyswllt ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'r hysbysiad cydymffurfio. Gall staff ac aelodau'r cyhoedd gysylltu â nhw drwy ebostio ymholiadaucymraeg@ofcom.org.uk<br><br>Mae'r ddau swyddog yn siarad Cymraeg yn rhugl gyda graddau Prifysgol ar lefel Meistr yn y Gymraeg. Mae Swyddog y Gymraeg yn Gyfieithydd proffesiynol yn ogystal.<br><br>Mae aelod penodedig ar Fwrdd Rheoli Ofcom yn gyfrifol am ofalu am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ar lefel uwch pan mae angen.<br><br>Mae nifer o aelodau Pwyllgor Cynghori Cymru, yn cynnwys y Cadeirydd, yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn cyfrannu at faterion Cymraeg yn rheolaidd. Mae'r Aelod Bwrdd Cynnwys dros Gymru hefyd yn siarad Cymraeg yn rhugl.<br><br>**POLISI**<br>Mae'r aelodau staff sy'n penderfynu ynghylch polisïau wedi cael gwybod am yr angen i gydymffurfio â'r set o Safonau Llunio Polisïau lle'n berthnasol. Cyflwynwyd Ffurflen Asesu'r Effaith ar y Gymraeg iddynt sydd |

| | | |
|---|---|---|
| **CYFARFODYDD**<br>Mae'r holl staff yn nhîm Ofcom Cymru yn ymwybodol o ofynion y Safonau mewn perthynas â chyfarfodydd ac maent yn cydymffurfio â hynny.<br><br>Darparir cyfieithu ar y pryd drwy system gynhadledda sy'n galluogi hyn ar gyfer cyfarfodydd rhithwir Ofcom Cymru pan fo'r angen amdano.<br><br>Mae agendâu a chofnodion dwyieithog Pwyllgor Cynghori Cymru yn cael eu llwytho i fyny ar wefan Ofcom ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Fwrdd Ofcom.<br><br>**TRWYDDEDAU**<br>Mae staff perthnasol yn ymwybodol o ofyniad y Safonau ac mae gweithdrefnau priodol wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiad os bydd trwyddedai yn gofyn am fersiwn Cymraeg o'i drwydded.<br><br>**CYFIEITHU**<br>Mae'r penderfyniad i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn seiliedig ar y maen prawf canlynol: os ydy'r gwasanaeth dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, dinasyddion neu fusnesau yng Nghymru neu'n debyg o fod yn berthnasol iddynt, yna byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.<br><br>Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei ddefnyddio o dan y drefn Safonau Cymraeg mewn perthynas â darparu cyhoeddiadau, datganiadau newyddion, tudalennau gwe a chreu apiau Cymraeg. | • Sesiynau ymwybyddiaeth mewn cyfarfodydd tîm grwpiau amrywiol ar draws y sefydliad.<br>• Straeon ar Fewnrwyd Ofcom yn rheolaidd.<br>• Cyhoeddi datganiad newyddion i'r cyfryngau yng Nghymru ar 25 Ionawr 2017 yn tanlinellu ymrwymiad Ofcom i'r Gymraeg. Mae'r neges hon yn ymddangos ymhob un o'n Hadroddiadau Blynyddol i'r Comisiynydd.<br>• Rydym yn defnyddio hashnod #yagym ar ein cyfrif Twitter Cymraeg yn rheolaidd i hyrwyddo'n trydariadau Cymraeg i gynulleidfa ehangach.<br>• Mae ein cyfrif Twitter Saesneg yn nodi manylion y cyfrif Cymraeg yn ei ddisgrifiad o'r cyfrif ac yn hyrwyddo'r cyfrif Cymraeg yn rheolaidd.<br>• Rydym yn cymryd rhan yn ymgyrch #MaeGeniHawl Comisiynydd y Gymraeg yn Gymraeg a Saesneg.<br>• Rydym wedi creu tudalen bwrpasol ar ein gwefan yn hyrwyddo ein gwaith yn y Gymraeg gan gynnwys fideo newydd a gynhyrchwyd yn ystod Haf 2021 yn rhoi blas o'n gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd. Defnyddiwyd y fideo ar y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o ymgyrch #MaeGeniHawl.<br>• Mae dolen "Ein Gwaith yn Gymraeg" at y dudalen we bwrpasol a nodwyd uchod ar gael ar droedyn gwefan Ofcom o dan 'Gwybodaeth am Ofcom'. Mae hyn yn sicrhau ei fod yn weledol ar y wefan drwy gydol siwrne'r defnyddiwr yn Gymraeg a Saesneg. | wedi cael ei gwreiddio yn y broses gorfforaethol.<br><br>Mae'r Uwch Gynghorydd y Gymraeg yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth gyda thimau polisi amrywiol ac wedi paratoi dogfen ganllaw iddynt.<br><br>Mae system rheoli prosiect y timau Polisi yn cynnwys blwch gorfodol o ran nodi ystyriaethau'r Gymraeg sy'n cael ei fonitro gan y Swyddogion Cymraeg.<br><br>Mae aelodau o dimau Polisi Ofcom hefyd yn Bencampwyr y Gymraeg i sicrhau bod gofynion y Safonau yn cael eu hystyried lle'n berthnasol yn eu gwaith o'r cychwyn.<br><br>Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol Ofcom ar yr iaith Gymraeg drwy'r sianeli llywodraethu perthnasol cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan. |

| | | |
|---|---|---|
| **DATGANIADAU NEWYDDION/DOGFENNAU A FFURFLENNI**<br>Mae Swyddogion Cymraeg Ofcom yn cyfrannu at alwad cynhadledd rheolaidd gyda'r tîm Cyfathrebiadau ym mhencadlys Ofcom ac yn dynodi'r angen i gyfieithu datganiadau newyddion, dogfennau a thestun diweddaru ar ddogfen waith berthnasol a rennir rhwng yr adrannau. Mae'r rhain i gyd yn cael eu cyfieithu yn unol â Gweithdrefn Safonol Ofcom ar gyfer Cyfieithu dogfennau.<br><br>Sefydlwyd broses effeithiol gyda'r Adran Digidol i sicrhau bod gwefan Gymraeg Ofcom yn cael ei diweddaru a'i datblygu ochr yn ochr â'r wefan Saesneg. Mae arweiniad 'Cyhoeddi ar y We yn Gymraeg' sy'n nodi'r ystyriaethau technegol a golygyddol angenrheidiol ar gael ar gyfer staff digidol hefyd.<br><br>Darparwyd dolen i fersiwn Gymraeg dogfennau sydd wedi'u cyfieithu ar glawr cyhoeddiadau Saesneg Ofcom ar-lein.<br><br>**CYNLLUN WRTH GEFN**<br>Darparwyd cynllun wrth gefn i staff Ofcom ar ddechrau pandemig y Coronafeirws i sicrhau bod cydymffufio â'r Safonau yn parhau petai Swyddogion y Gymraeg yn sal. | • Rydym yn cynhyrchu e-lythyr newyddion dwyieithog i danysgrifwyr ebyst newyddion Ofcom sy'n hyrwyddo canolfan newyddion Cymraeg Ofcom. | |